

O na byddai'n  
haf o hyd!

# Willia

RHIF 437  
GORFFENNAF/AWST 2021

PAPUR MISOL CYMRAEG  
ABERTAWE

## DATHLU 50 MLWYDDIANT MERCHED Y WAWR GORSEINON



Roedd y cyfrwng newydd yn galluogi rhai o ardaloedd pellach i ymuno hefyd!

Ann Davies.

Chwith: Niifer o aelodau o gylch y Goeden Dadthlu 50

Isod: Ann Davies (llywydd) a Margaret Williams (ysgrifennydd) wrth Y Goeden Dadthlu 50.

Isod: Y Plac osodwyd ar y Goeden Dadthlu 50.

## Ysgol bêl-droed i ddisgyblion

### Cymraeg

Mae'r Fenter Iaith wedi trefnu Ysgol bêl-droed i ddisgyblion ysgolion Cymraeg. Mae'r Ysgol yn cwrdd bob nos Iau, 5 tan 6. Holwch y Fenter Iaith am ragor o fanylion.

Mae Clwb Pêl-droed Abertawe a'r Fenter Iaith yn cydweithio i redeg yr ysgol hon.

Daeth cynrychiolaeth dda o aelodau Merched y Wawr Gorseinon at ei gilydd ym Mharc Penllergaer i gwrdd wyneb yn wyneb am y tro cyntaf oddi ar Chwefror 24en 2020 ar ddydd Iau Mehefin 17eg 2021.

Roedden nhw yno i ymgasglu o amgylch Y Goeden Ddathlu 50 a blannwyd ym mis Rhagfyr 2020, ac i gael picnic bach a sgwrs. Sefydlwyd y gangen yn 1970 a thrist nodi i ni

gollu un o'n haelodau gwreiddiol ffyddlon, Beti Evans eleni.

Ry'n ni'n 40 o aelodau ac yn falch o ddweud i ni fedru cynnal ein cyfarfodydd yn fisol ar Zoom, fel a drefnwyd yn ein rhaglen, oddi ar fis Medi 2020.

Hefyd, mae gyda ni grŵp o gerddwyr o dan fantell Merched

y Wawr sy'n cael ei drefnu

gan Esyllt Jones, a hynny'n agored i unrhyw aelod. Doedden ni ddim yn gallu cwrdd i gerdded am gyfnod ond rydyn wedi ail gydio bellach. Yn yr un modd mae yna griw o ddarllenwyr dan fantell Merched y Wawr sy'n cael ei drefnu gan Catrin Stevens, eto'n agored i aelodau cyfagos. Fe fu Zoom yn ddefnyddiol eto ac fe drafodwyd yn gyson drwy'r cyfnod clo.



# ARWYDDION ABERTAWE:

## 1. PARC BRYNMILL

Dyma arwydd ar y ffens ger y llyn ym Mharc Brynmill.

**Dyma'r Gymraeg newydd yn Abertawe:**

Wild Fowl = Twylllo gwyllt; dyw hwyaid bach ddim yn ddigon da—**defnyddiwch 'ducklings'**. Ac anghofiwch am wylanod.

**Mae 'seagulls' yn y Gymraeg newydd.**

Croeso ichi anfon lluniau aton ni o arwyddion Cymraeg gwael yn Abertawe.



## Rhwng 5 a 9 marc i Loerganiadau

Barn y Cylch Trafod Llyfrau am *Lloerganiadau* gan Fflur Dafydd Marciau yn amrywio o 5 i 9 marc, gyda nifer da yn rhoi 8 marc

“Llyfr diddorol gyda phob un ben-nod yn dechrau gyda llun pwynt gwahanol y lleud ac wedyn stori gysylltiedig. Ar y cyfan, mae'n llyfr diddorol a thynnodd fy sylw at wahanol gymalau'r lleud. Mae'r storiâu ychydig ar hap wedyn braidd.”

“Lluniau arbennig o'r lleud; yn gwneud imi feddwl am y lleud. Y rhan fwyaf o'r amser, yr unig dro dwi'n meddwl beth mae'r lleud yn ei wneud yw pan mae'r lleud yn llawn.”

“Roedd storiâu'n addas i'r lluniau hefyd. Mae gan yr awdur ddiddordeb mewn pobl – pan maen nhw'n ifanc ac yna'n hŷn. Ro'n i'n dysgu tipyn bach am ystyr y stori a hefyd, tipyn bach am wydoniaeth am y lleud bob tro a hefyd hiwmor yn y llyfr.”

“Wedi'i ddarllen ac wedi'i orffen. Does

gen i ddim diddordeb yn y lleud a'r sêr – heb hynny, rhyw fath o hunangofiant yw e, braidd yn boring a bod yn onest. Ces fy siomi. Ro'n i'n methu aros i orffen yr un olaf!”

“Wedi mwynhau'r ysgrifau yn fawr. Yn cysylltu â'i gilydd – rwy'n bwriadu mynd yn ôl i ailddarllen y llyfr.”

“Wedi fy swyno'n llwyr, wedi cydio o'r dechrau. Hiwmor, direidi, doniolwch, athronyddu, myfyrio y gallwn uniaethu â hi a hynny mewn arddull garlamus, hyfryd. Rwy' eisiau mynd yn ôl a darllen sawl darn eto.”

“Dawn ysgrifennu gan yr awdur Tro-siadau, cymariaethau effeithiol a thrawiadol yn mynd â'ch anadl yn aml: ymadroddion disglair a thrawiadol Teimladwy, telynegol (ydy hi weithiau'n meddwi ar eiriau?)”

“Cymerodd dipyn o amser imi fynd i mewn i ysbryd y llyfr; do'n i ddim yn gweld y cysylltiad rhwng cymalau'r lloer a'r digwyddiadau. Unwaith ro'n i i mewn iddo fe, fe'i cefais yn ddiddorol. Dysgais eirfa newydd oherwydd y ffaith ei bod yn sôn am y lleud. Roedd stori y parti ansyddogol yn ddoniol iawn.”

“Do'n i ddim yn deall ystyr

'Lloerganiadau', a rywsut wedi cymryd yn ganiataol mai barddoniaeth oedd yn y gyfrol. Do'n i ddim yn siŵr beth i'w ddisgwyl o ran y darnau ffeithiol. Wedi

mwynhau'r darnau digri.”

“Allaf i ddim dweud fy mod i wedi mwynhau. Roedd y darnau am y lleud ymhell uwch fy mhen i. Byddai gwneud y llyfr yn nhrefn amser wedi helpu – roedd y darnau am y lleud yn drefnus, ond roedd y gweddill heb fod yn drefnus. Un peth wnaeth imi chwerthin – y stori lle roedd hi'n disgrifio ei bod ynghanol pwll nofio adeg munud o ddiogelwch. Roedd hi'n cyfeirio at bobl wrth lythrennau eu henwau, ond mae cyfeiriad at bawb yn y diolchiadau, felly byddai'n well petai wedi cyfeirio at y rhain wrth eu henwau. Wedi'i orffen, ond byddai wedi gwneud mwy o synnwyr mewn trefn amseryddol.”

“Heb gwplâ'r llyfr – wedi gwneud fy ngorau – yn trio peidio rhoi'r gorau iddi, ond ar ôl rhyw 60 o dudalennau, doedd gen i dim clem beth oedd yn digwydd. Tipyn o botsh imi, mae'n rhaid dweud. Wedi cael llond bol. Roedd cyfeirio at y cymeriadau wrth lythrennau eu henwau'n llyffethair mawr i mi, mae'n rhaid dweud.”

“Wedi darllen traean – ddim yn siŵr beth rwy'n ei feddwl ohono. Wedi deall bod dwy thema – sôn am y lleud ac yna helyntion bywyd. Yn gweld y peth yn rhy brysur. Mae pob brawddeg yn cyflwyno rhywbeth newydd – mae hi fel rhywun sy'n methu siarad. Gweithgarwch yn y nos, ffrwmwr, ymgymerwr, goleuadau sêr, wedi ein creu o llwch y sêr – roedd gormod o syniadau ar draws ei gilydd i gyd.”

“Mae hi'n gallu ysgrifennu, does dim dwywaith, yn gallu disgrifio pethau'n dda iawn. Yn meddwl fy mod i'n cael blas ar y dechrau ac wedi gobeithio y byddai'r llyfr yn clymu â rhyfeddod a phrofiadau bywyd. Yn hoffi'r bennod yn disgrifio ei phrofiad fel mam. I mi, roedd gorymdrech yn y darnau am y lleud ei hun. Y siom fwyaf oedd ei bod hi'n ymdrin â digwyddiadau fel plant yn cael parti mewn tŷ – doedd y deunydd ddim yn cyfateb i'r arddull. Roedd yr arddull yn rhy lenyddol fwiadus o gymharu â'r testun, felly mi wnes i ddiffasu ychydig. Yn y pen draw, ro'n i rhwng dwy stôl – yn edmygu ei deunydd ond doedd dim digon o brofiadau i sôn amdany'n nhw. Ro'n i wedi gobeithio y byddai'n ysgrifennu ysgrifau modern.

13 Medi – 2 LYFR: *Y Castell Siwgr* gan Angharad Tomos, Gwasg Carreg Gwalch £8.50 a *Llechi* gan Manon Steffan Ros, Y Lolfa £6.99.

Ers mis Ebrill 2020, rydyn ni'n cwrrd ar Zoom ar ail nos Lun y mis am 7:30, ond efallai bydd modd cwrrd eto wyneb yn wyneb yn Nhŷ Tawe ym mis Medi. Croeso i aelodau newydd, cewch wybod beth byddwn yn ei wneud ym mis Medi drwy gysylltu ag [elin.angharad.meeke@gmail.com](mailto:elin.angharad.meeke@gmail.com)



Yn araf deg mae pethau'n gwella yn ein gwlad ac mae aelodau'r gymdeithas yn crwydro'r cefn gwlad unwaith eto, yn mwynhau'r awyr iach a gwerthfawrogi blodau gwyllt y gwanwyn ar ôl gorfod cadw draw am gymaint o amser. Dw i'n falch o ddweud bod llawer o ddysgwyr yn cerdded efo ni ac yn cael cyfle ardderchog i ddatblygu eu Cymraeg wrth sgwrsio – y ffordd naturiol o ddatblygu iaith newydd. Dyma brofiad un sydd yn cerdded efo ni yn gyson.

## Dysgu'r iaith gyda Chymdeithas #Edward Llwyd.

gan Shelagh Fishlock  
Dechreuais i ddysgu Cymraeg mewn dosbarth Coleg Gwent yn 2018. Yn ogystal â dosbarthiadau, roedd athrawon y Coleg yn trefnu gwahanol weithgareddau i ddysgwyr er mwyn cwrdd â Chymry Cymraeg yr ardal. Y tro cyntaf i fi ymuno oedd ar daith gerdded yng Ngwlypdiroedd Casnewydd a threfnwyd gan y Coleg a Chymdeithas Edward Llwyd. Prin iawn oedd fy Nghymraeg ar y pryd, ond cwrddais i â sawl dysgwr arall, a hefyd aelodau CELI. Ces i fy annog i ddal ati gyda'r iaith. Yn ystod y daith o gwmpas y Gwlypdiroedd, esboniodd yr arweinydd (y diweddar Gareth Beynon) y byddai daith arall y Gymdeithas yna ym mis Tachwedd, amser "murmurations" y drudwyod. A dyma fi'n chwilio am fanylion ar wefan CELI, wefan cyfrwng Cymraeg wrth gwrs. Wedi darllen geiriau fel "dringo" a "serth," es i â'r rhestr i fy nhwitwr- roeddwn i'n edrych ar restr teithiau'r Gogledd-orllewin! Wedyn, wrth edrych ar y rhestr gywir doedd dim sôn am 'Wlypdiroedd Casnewydd.' Roeddwn ar goll nes i mi weld y geiriau 'Crwydro Gwastadeddau Gwent'. Ond er gwaetha'r

heriau ieithyddol, ymunais i â'r daith - daith a fyddai'n cychwyn siwrne arall i ddarganfod mwy am natur, hanes a diwylliant Cymru, ffrindiau newydd ac iaith y nefoedd.

Ar y dechrau roedd hi'n anodd iawn i fi gael sgwrs gydag aelodau o'r grŵp, ond roedd pawb yn amyneddgar, yn ailadrodd cwestiynau, yn esbonio pethau ac yn gwneud eu gorau glas i ddeall fy mrawddegau lletchwith. Ar ddiwedd bob taith ro'n i wedi blino'n lân - dim achos y cerdded, ond achos diwrnod hir o Gymraeg. Yn ffodus, erbyn hyn, er nad ydw i'n rhugl, dw i'n gallu



mwynhau sgwrsio, a deall y rhan fwyaf o esboniadau'r arweinydd (Hyd yn oed rhai ag acen Cwm Tawe!)

Felly, sut mae'r teithiau Cymdeithas Edward Llwyd yn help i ddysgwr (neu "siaradwr newydd")?

Byddech chi gyda grŵp sydd â diddordeb cyffredin – cerdded, byd natur, hanes Cymru.

Byddech chi'n treulio diwrnod cyfan mewn amgylchedd hollol Cymraeg, ble mae siarad yn Saesneg yn swnio'n annaturiol.

Dim "Cymraeg y dosbarth" sy'n cael ei

defnyddio: bydd pobl yn y grŵp o bob ardal o Gymru, gydag acennau gwahanol, geiriau tafodieithol a gwahanol ffasiynau o ddefnyddio'r iaith. Mae hynny'n ddryslyd ar y dechrau, ond yn ddefnyddiol iawn i werthfawrogi amrywiaeth yr iaith.

Bydd y profiad hwn yn cynyddu'ch hyder i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd eraill y tu allan i'r dosbarth.

Mae e'n jyst lot o hwy!

Da ynte!, mae Shelagh wedi croesi'r bont o fod yn ddysg wraig i fod yn un o'n siaradwyr newydd hyderus. Mae angen llawer mwy fel hi os ydym i fod i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Fel cymdeithas sydd yn cerdded mewn tair rhan dros Gymru bob dydd Sadwrn mae cyfle gwyh i ddatblygu'r iaith a gwneud ffrindiau newydd. Ewch at ein gwefan i lawr lwytho ffurflen aelodaeth - <https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/aelodaeth/>. Mae ein rhaglenni teithiau maes i'w gael ar y wefan hefyd a bydd eich aelodaeth yn parhau tan ddiwedd mis Gorffennaf 2022. Gall bod fel cael Sadwrn Siarad bob wythnos am ddim ond £20!

Dewch i fwynhau a chadwch eich Cymraeg yn fyw!

Rob Evans – Ysgrifennydd Aelodaeth

### Wilia Mehefin

yng ngofal Steve Morris  
Diolch yn fawr i'n cyfranwyr.

Rhifyn Medi: Anfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr

erbyn Awst 24:

wilia@hotmail.co.uk

Croeso i unrhyw fath o

ddeunydd; os oes gennych gerdd neu

stori sy'n hel llwch yn y drôr!



Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

# mudiad meithrin

arbenigwyr y blynyddoedd cynnar



## Gŵyl Dewin a Dathlu Ddigidol gyda Martyn Geraint a Siani Sionc

Newyddion da i ffrindiau bach Dewin a Doti!

Mae Mudiad Meithrin yn falch iawn i gyhoeddi y bydd Gŵyl Dewin a Doti (neu Gŵyl Dewin a Dathlu fel y gelwir hi eleni gan fod y Mudiad yn dathlu ein pen-blwydd yn 50) yn cael ei chynnal dros ein platfformau digidol yn ystod wythnos 14 -18 Mehefin yng nghwmni Martyn Geraint, Siani Sionc a Dewin a Doti wrth gwrs.

Bydd sioe fer yn cael ei darlledu bob dydd am 11.00 y bore ar ein tudalen Facebook, Youtube ac AM Cymru o ddydd Llun hyd ddydd Gwener.

Meddai Iola Jones, Pennaeth Cyfathrebu a Phartneriaethau Mudiad Meithrin:

**“Mae Gŵyl Dewin a Doti yn rhan bwysig o galendr digwyddiadau'r Cylchoedd Meithrin erbyn hyn, ac mae'n ffordd wych o ddod â'r Gymraeg yn fyw - yn enwedig i deuluoedd lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad yn y cartref.**

Bydd yr Ŵyl yn cyrraedd cartrefi pawb trwy'r cyfryngau cymdeithasol ar ffurf fideos byr a fydd yn cynnwys 'Cân y Dathlu' - sef cân a gyfansoddwyd i'r Mudiad yn arbennig gan Siani Sionc i ddathlu pen-blwydd y Mudiad yn 50.

Yn ogystal â hyn, bydd straeon a chaneuon poblogaidd a genir yn ein Cylchoedd Meithrin gyda'r diddanwr plant bytholwyrdd Martyn Geraint a'i ffrind newydd Siani Sionc!”

## Cyhoeddi Ap 1 Cymraeg a Gwyddelig Newydd sy'n cynnwys E-lyfrau i Blant Ifanc yng Nghymru ac Iwerddon.

Mae Mudiad Meithrin - yr arbenigwr blynyddoedd cynnar Cymraeg blaenllaw yng Nghymru - yn falch o gyhoeddi ap newydd sy'n cynnwys 3 e-lyfr Cymraeg, gydag un o'r llyfrau hyn wedi'i gy-

fieithu i'r Wyddeleg fel y gall Gaeloideachas ei ddefnyddio i hyrwyddo addysg cyfrwng Gwyddelig yn Iwerddon.

Mae Mudiad Meithrin yn sefydliad sy'n angerddol am roi cyfle i bob plentyn yng Nghymru chwarae, dysgu a thyfu yn Gymraeg. Mae nifer o rieni di-Gymraeg wedi nodi eu bod yn teimlo eu bod wedi colli allan ar y cyfleoedd i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus dros y blynyddoedd ac maent yn awyddus bod eu plant yn cael cyfle i ddod yn siaradwyr Cymraeg. Dewin a Doti 2 yw ail ap Mudiad Meithrin, ond yr adnodd cyntaf i gynnwys stori yn y Wyddeleg yn ogystal â fersiynau Makaton, a bydd yr ap yma'n gymorth i rieni i glywed a defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant yn y cartref.

Mae'r ap Dewin a Doti 2 yn cynnwys 3 stori am gymeriadau hoffus Mudiad Meithrin, Dewin a Doti. Mae Dewin a'i ffrind ffyddlon Doti y ci yn bresennol yn ein holl Gylchoedd Meithrin i helpu plant i siarad Cymraeg, gan mai Cymraeg yw'r unig iaith mae Dewin a Doti yn ei siarad a'i deall. Thema'r tri llyfr yw Dewin a Doti yn


dathlu'r Flwyddyn Newydd ledled y byd, Dewin a Doti yn helpu eu ffrind i ailgylchu, a'r trydydd e-lyfr sydd wedi'i gyfieithu i'r Wyddeleg yw Dewin a Doti yn teithio ledled Cymru.

Bydd yr holl e-lyfrau hyn i'w gweld ar yr ap yn ogystal â thafleini gweithgaredd a gêm lotto. Maent ar gael i'w lawrlwytho trwy'r siop apiau ar bob platfform. Mae fersiwn Makaton ar gael gyda'r holl straeon Cymraeg hefyd.

Mae Mudiad Meithrin wedi cynhyrchu'r fersiwn Wyddeleg fel rhodd i Gaeloideachas sef y prif sefydliad cenedlaethol sy'n cefnogi datblygiad ysgolion cyfrwng Gwyddelig a Gaeltacht ar lefel gynradd ac ôl-gynradd. Mae Gaeloideachas yn darparu cyn-gor, cymorth a chefnogaeth i bobl sy'n dymuno cael addysg i'w plant trwy gyfrwng y Wyddeleg, o'r ysgol gynradd (naionrai) i ysgolion cynradd ac ôl-gynradd



cyfrwng Gwyddelig yn Gaeltacht ac ardaloedd sydd ddim yn cael eu hystyried fel ardal Gaeltacht. Mae Gaeloideachas yn gweithio i eirioli ar ran naionrai ac ysgolion i hwyluso safon addysg drochi ledled y wlad yn ogystal â datblygu a chryfhau'r gymuned a'r diwylliant sy'n siarad Gwyddeleg. Gweledigaeth Gaeloideachas yw y dylai addysg drochi trwy gyfrwng y Wyddeleg o ansawdd uchel fod ar gael i bob rhiant a gwarcheidwad a fyddai'n ei ddewis ar gyfer eu plentyn, a gweledigaeth Mudiad Meithrin yw y dylai addysg Gymraeg fod ar gael i bob plentyn yng Nghymru.



## Ei Fywyd a'i Ddegawd: Cyfrol i gofio Syr D J James Pant-y-fedwen

Annwyl Ddarllenwyr

Hoffwn dynnu eich sylw at gyfrol arbenig, **Syr DJ James: Ei Fywyd a'i Ddylanwad**, fydd yn cael ei chyhoeddi cyn hir gan Ymddiriedolaeth James Pant-y-fedwen. Cyfrol yw hon yn croniclo hanes Syr David James, sylfaenydd yr Ymddiriedolaeth, ac yn rhannu ychydig o wybodaeth am y gwaddol a adawodd ef i

Gymru a'i phobl, gwaddol sy'n parhau i gael ei dosbarthu mewn grantiau i bobl Cymru'n flynyddol. Awdur y gyfrol yw Richard Morgan, fu'n Ysgrifennydd Gweithredol yr Ymddiriedolaeth am dros ddeng mlynedd ar hugain, ac a fu'n ddiwyd iawn dros y blynyddoedd diwethaf yn casglu gwybodaeth a lluniau ac yn ysgrifennu'r hanes.

Rydym yn y broses o gasglu tanysgrifiadau ar gyfer y gyfrol (pris £18 yn cynnwys postio), a byddwn yn cynnwys enwau'r holl danysgrifwyr yn y gyfrol a brynir ganddynt. Os hoffech danysgrifio, gofynnwn i chi gysylltu â Swyddfa Pant-y-fedwen cyn gynted â phosibl, ac erbyn 16 Gorffennaf fan bellaf. Gweler y manylion cyswllt isod.

Yn gywir

Gwenan Creunant

Ffôn: 01970 612806

E-bost: [post@jamespant-y-fedwen.cymru](mailto:post@jamespant-y-fedwen.cymru)

## Siaradwyr Newydd ... yn eich bro

Ar ddydd Sadwrn, 25 Medi, bydd Cymdeithas yr Iaith yn cynnal digwyddiad 'Cefnogi Siaradwyr Newydd ... yn eich bro'.

Ar y diwrnod hwn, gobeithiwn y bydd digwyddiadau yn cael eu cynnal ledled Cymru sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr a Chymry Cymraeg ddod ynghyd mewn gweithgarwch i ddarganfod mwy am yr ardal ble maent yn byw. Gall y digwyddiad fod yn daith gerdded yn yr ardal, ymweliad i ryw le o ddiddordeb, sgwrs gan hanesydd lleol, taith o amgylch tref penodol – unrhyw beth fyddai'n tynnu siaradwyr Cymraeg newydd mewn i'n cymunedau.

Gobeithir wedyn y bydd pawb yn dod ynghyd dros Zoom gyda'r nos ar gyfer noson gymdeithasol.

Rydym felly yn chwilio am unigolion sy'n fodlon cymryd cyfrifoldeb dros drefnu digwyddiad yn eu hardal nhw. Cysylltwch â swyddfa'r Gymdeithas 01970-624501

neu [post@cymdeithas.cymru](mailto:post@cymdeithas.cymru) os am fwy o wybodaeth neu os am roi eich enw ymlaen i drefnu digwyddiad. Diolch

Nia Llywelyn, Swyddog Dysgwyr  
Cymdeithas yr Iaith

**HWYL  
YR HAF**

19 - 23 O ORFFENNAF

YSGOL YSTALYFERA 9:30 - 11:30

YSGOL BRYN TAWE 1:30 - 3:30

OED | AGE: 8 - 11

19 - GEMAU

20 - CEGIN MR HENRY

21 - JALISA ANDREWS

22 - CELF A CHREFFT

23 - PARTI

£2 Y  
DIWRNOD  
NEU  
£7 YR  
WYTHNOS

| GOFRESTRU, EWCH I | TO REGISTER, GO TO  
**MENTERABERTAWE.ORG/ARCHEBU**

ERBYN | BY: 14.07.21

Sarielwyr Morgannwg

menter iaith  
Castell-nedd Port Talbot

menter iaith  
abertawe



Urdd

## Jambori digidol yr Urdd

“Fel mae llawer ohonoch chi siwr o fod wedi gweld, mae'r Urdd wedi creu pecyn Jambori digidol.

Pris y pecyn yw £50 fesul ysgol ac fe fyddwch yn cael amrywiaeth o adnoddau gan gynnwys 11 cân Cymraeg. Mae pecyn uniaith Gymraeg a phecyn dwyieithog.

Er mwyn archebu ewch i [www.urdd.cymru/jambori](http://www.urdd.cymru/jambori)

Dwi'n gwybod pa mor boblogaidd yw'r Jambori yn y rhanbarth felly byddai'n wych gweld nifer ohonoch chi yn manteisio ar y pecyn ☑

Unwaith byddwch chi'n archebu bydd y ddolen a chyfrinair (un personol i bob archeb) yn cael ei anfon allan noson y 6ed o Orffennaf ar gyfer y Diwrnod Jambori ar y 7fed.”

### Eisteddfod T yn llwyddiant ysgubol unwaith eto


Wrth i Eisteddfod T ddirwyn i ben heddiw (dydd Gwener 4 Mehefin 2021) yn dilyn wythnos gyffrous o gystadlu, mae'r trefnwyr yn datgan eu diolch i gystadleuwyr, hyfforddwyr, partneriaid a noddwyr fel ei gilydd am gael **cynnal cystal ŵyl ddigidol unwaith eto eleni**. Yn ystod yr hyn a fyddai wedi bod yn wythnos Eisteddfod yr Urdd yn Sir Ddinbych, a ohiriwyd am yr ail flwyddyn yn olynol oherwydd Covid-19, mae cystadleuwyr a gwylwyr **wedi bod yn mwynhau gŵyl ddigidol ar y radio, teledu ac ar-lein, a'r cyfryngau cymdeithasol yn llawn negeseuon o gefnogaeth gydol yr wythnos**.

Cynhaliwyd Eisteddfod T drwy gydol yr wythnos hon gan ddenu dros 13,000 o gystadleuwyr mewn 134 o gystadlaethau. Ymunodd cynulleidfaoedd yn yr hwyl, gyda 37 awr o ddarlledu byw ar S4C a 25 awr ar BBC Radio Cymru a BBC Radio Cymru2, ynghyd â gweithgareddau di-ri ar Ap Eisteddfod yr Urdd a'r cyfryngau cymdeithasol.

Bu teilyngdod yn holl brif seremonïau Eisteddfod T, gyda'r canlynol yn cipio Tlws arbennig yr un: Phoebe Skinner o Gaerdydd (Prif Ddysgwr), Rhiannon Gwyn o Sling ger Bethesda (Prif Artist), Alaw Grug Evans o Bontyberem (Prif Gyfansoddwr), Rhiannon Lloyd Williams o Gaerdydd (Prif Ddramodydd), Sioned Medi Howells o New Inn, Pencader (Prif Lenor) a Kayley Sydenham o Gasnewydd (Prifardd).

Blas rhyngwladol oedd i gyhoeddiadau ychwanegol yr Urdd yn ystod wythnos Eisteddfod T. Cyhoeddwyd bod enillydd cystadlaethau Unawd 19-25 Eisteddfod T, Dafydd Jones o Lanrhaeadr, Sir Ddinbych, yn cael ei wahodd i berfformio fel gwestai arbennig yng Ngŵyl Cymru Gogledd America 2021, a gynhelir yn Utica, Efrog Newydd ym mis Medi; a bydd 16 o fuddugwyr Eisteddfod T yn cael y cyfle i ymuno â chôr newydd sbon – Côr yr Urdd – fydd yn teithio allan i Alabama fel rhan o ddathliadau canmlwyddiant y Mudiad yn 2022.

Yn ogystal, datgelwyd Mistar Urdd ar ei newydd wedd fel masgot swyddogol Tim Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad, a gynhelir ym Birmingham flwyddyn nesaf. Daeth yr Urdd yn bartner elusennol swyddogol Tim Cymru yn ôl ym mis Mai 2019, er mwyn i ysbrydoli plant ledled Cymru i roi cynnig ar chwaraeon ac i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol.



## Ysgoloriaethau Partneriaeth Prifysgol Aberystwyth

Gwych iawn yw gweld llwyddiant prosiect sy'n annog disgyblion i fynychu prifysgolion yng Nghymru.

Llongyfarchiadau mawr i dri o fl13, Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe, sef Cameron Jenkins, Caitlin Thomas a Thea Wood, sydd wedi ennill ysgoloriaethau partneriaeth Prifysgol Aberystwyth. Mae Cameron yn mynd i astudio Cymraeg, Caitlin yn mynd i astudio Hanes a Thea yn mynd i astudio Amaethyddiaeth a Gwyddor Anifeiliaid.

Mae'r tri hefyd wedi sefyll papurau ysgoloriaeth ar gyfer y brifysgol yn ddiweddar, felly croesi bysedd am fwy o newyddion da yn fuan!



## Calendr Abertawe 2022

Bydd Calendr Abertawe'n ymddangos eto eleni, ar gyfer 2022. Chafodd y calendr ddim ei gyhoeddi eleni, am fod ysgolion ar gau ddiwedd 2020, a chymdeithasau Cymraeg ddim yn cwrdd.

Menter Iaith Abertawe a Thy Tawe fydd yn cyhoeddi'r calendr eleni.

Cafodd y calendr ei gyhoeddi gyntaf pan ddaeth Ei-steddfod yr Urdd i Abertawe yn 2011. Cododd y calendr £3,000 i'r Eisteddfod honno.

Wedi hyn bu Wilia'n ei gyhoeddi, a rhannwyd yr elw rhwng Wilia a'r gwerthwyr. Rhwng pawb, gwnaed tua £1,500 a £2,000 o elw'n flynyddol.

LLUNIAU: Mae croeso i bawb anfon lluniau i'r calendr at y Fenter Iaith: [swyddfa@menterabertawe.org](mailto:swyddfa@menterabertawe.org)


## Academi Stem

Bydd cyfle i ddisgyblion 11-14 oed astudio pynciau gwyddonol ym Mhri-fysgol Abertawe yn rhad ac am ddim.

Mae'r Academi'n disgywydd rhwng yr 2il a'r 6ed o Awst. Ar y dydd Llun a'r dydd Mawrth bydd nifer o'r sesiynau'n cael eu rhedeg trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda chydweithrediad Menter Iaith Abertawe.

Pwnc yr Academi, sy'n rhan o brosiect Technocamps, yw 'Arbrofion ac Anturiaethau'.

Bydd cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwyddonol, gan gynnwys helpa drysor, ystafelloedd dianc, robotiaid a rocedi.



# SIOP Tŷ Tawe

**Cofiwch fod Siop Tŷ Tawe ar agor rhwng 10yb – 5yh o Ddydd Mawrth – Dydd Gwener a phob bore Sadwrn rhwng 10yb – 2pm.**

Mae nifer o nwyddau newydd ar gael a chardiau i ddatlu bob achlysur. Gyda diwedd y flwyddyn academaidd ar y gorwel beth am gardiau i longyfarch myfyrwyr ar eu harholiadau neu i roi di-olch i'r athrawon a chynorthwyon sydd wedi eu helpu? Gyda'r Euros ymlaen am yr wythnosau nesa, mae 'na wledd o lyfrau gwych i ffans y bel crwn yma hefyd.



Dewch draw i'n gweld.

Mae hi'n awr yn bosibl prynu llyfrau a chardiau a theganau ac ati ar-lein.

Ewch draw i wefan Ty Tawe i brynu a gallwch gasglu'r nwyddau yn y siop, neu gael y siop i'w danfon atoch chi.



## PRYNWCH ARLEIN NAWR!

Ewch draw i wefan newydd Siop Tŷ Tawe i brynu nwyddau arlein.



siop.tawe.co.uk

Archebwch lyfrau, cardiau, anrhegion a mwy i gael eu postio, neu i gasglu yn y siop - [siop.tawe.co.uk](http://siop.tawe.co.uk)

**I ddatlu lansio'r wefan, mae pris llawer o'r stoc wedi ei gostwng** - felly cipiwch fargen heddiw!

Mae stoc newydd yn cael ei ychwanegu'n gyson at y wefan, felly os nad ydych yn gallu dod o hyd i beth hoffwch heddiw - cysylltwch gyda'r Siop ar 01792 456856 neu [siop@siop.tawe.co.uk](mailto:siop@siop.tawe.co.uk), neu galwch mewn i'r siop unrhyw bryd.

### Digwyddiadau

Gorff 1: Ysgol bêl-droed Abertawe 5—6  
Gorff 3: Caffi bore Sadwrn Ty Tawe 10-12  
Gorff 7: Cylch Clebran 11—12.30  
Gorff 10: Caffi bore Sadwrn Ty Tawe 10-12  
Gorff 14: Adran Abertawe i flynyddoedd 3-6, 4.30-5.30  
Holwch y Fenter Iaith am ragor o ddiwyddiadau





## Digwyddiadau byw yn Nhy Tawe ym mis Medi

Rydym yn falch iawn i gyhoeddi bod cerddoriaeth fyw yn dychwelyd i Dŷ Tawe!


Gyda'r sengl "Dyddiau Gwell i Ddod" wedi ei rhyddhau eleni a LP newydd i ddilyn, edrychwch ymlaen at groesawu Mei Gwynedd yn ôl i Dŷ Tawe.

Ty Tawe: 9 Christina Street Abertawe

Nos Wener, Medi 10, 2021

Nos Wener, Medi 24, 2021

Brysiwch i archebu tocynnau—bydd y nifer yn gyfyngedig i reolau Covid ar y pryd.



## Pwyllgor Rheoli Menter Iaith Abertawe

Ydych chi'n byw yn Abertawe, neu â chysylltiadau i'r ardal, ac yn angerddol dros y Gymraeg?

Mae Menter iaith Abertawe yn croesawu ceisiadau i ymuno â phwyllgor rheoli'r Fenter.

Mae'r pwyllgor yn cwrrd bob deufis i drafod gweithgareddau'r Fenter, materion ariannol, cymeradwyo polisiau, materion staffio a derbyn gwybodaeth ar gynnydd yn erbyn targedau.

E-bostiwch [swyddfa@menterabertawe.org](mailto:swyddfa@menterabertawe.org) am fwy o fanylion.

DEWCH DRAW AM SGWR A PHANEDI  
CROESO I DDYSGWYR A SIARADWYR RHUGL!

SPEAK WELSH IN AN INFORMAL SETTING. SESSIONS FREE OF CHARGE. COME ALONG FOR A CHAT AND A CUPPA!

MENTER IAITH ABERTAWA | BHFIF CŴMNI: 06493822